CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR 18, 2020

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Chwefror 18, 2020 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Rhun Prys Jones, Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 21, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 21, 2020

Nid oedd materion yn codi.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (11/2/2020) oddi wrth Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi cyngor ar Brexit i drigolion a busnesau. Mae gwybodaeth ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU trwy www.gwynedd.llyw.cymru/brexit Mae gwybodaeth ynghylch effeithiau gadael yr UE ar wasanaethau Cyngor Gwynedd ar gael trwy www.gwynedd.llyw.cymru/cysylltu

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Nid oedd materion yn codi.

8. Materion Ariannol

a. Adroddiad (5/2/2020) gan Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi gwybod dim ond 66% o'r 486 gynghor cymuned cyhoeddwyd eu cyfrifon yn yr amser roedd angen gan y gyfraith. Mae'r wybodaeth wedi cael ei roi i'r wasg.

b. Llythyr (29/1/2020) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydymain yn dolch am ein rhodd o £500. (Lythyr arall; derbyniwyd llythyr diolch 7/6/2019)

c. Llythyr (29/1/2020)) oddi wrth Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol Rhydymain a'r Cylch yn dolch am ein rhodd o £100.

ch. Llythyr (24/1/2020) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

d. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Llên y Llannau. Maent angen cymorth ariannol.

dd. Llythyr (17/2/2020) oddi wrth Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

e. Llythyr (6/1/2020) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapel am diffibriliwr i bentref Llanfachreth.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Mawrth.

f. Llythyr (26/11/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2019-20. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 £8.12, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £8.12 x 601 = £4,880.12.

ff. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol 2019 / 2020:

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2020, Dawns i Bawb, Canolfan Therapi Bobath Cymru; Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020, Marie Curie, Cwmni Theatr Bara Caws Cyf; Llên y Llannau, Ambiwlans Awyr Cymru, Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Llên y Llannau: £50
Ambiwlans Awyr Cymru: £200
RABI Meirionnydd = £100
Cymdeithas Y Dydd = £100

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Eisteddfod Llanfachreth: £250
Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol Rhydymain a'r Cylch = £100
Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru = £100
Treialon Cŵn Defaid Cynedlaethol Cymru 2020 = £50

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):

Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau: £200
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £250

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):

Neuadd Brithdir: £600
Neuadd Rhydygorlan: £600
Neuadd Llanfachreth: £600
Neuadd Rhydymain: £600

Cyfanswm = £3,800.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ionawr 2020: £1,140.46.

ff. Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2020: £4,412.82.

g. Anfonwyd copi o sefyllfa arianol y Cyngor, cyn byddwn yn cael y Praesept, i'r aelodau.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Llythyr (6/2/2020) oddi wrth YGC, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gwaith trwsio Pont ar Dibyn wedi ei gwblhau ac mae'r ffordd B4416 nawr ar agor. Amgáu mae lluniau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau sydd ar y wefan.

10. Unrhyw fater arall

Penderfynwyd i Meurig Ashton cael gwared â'r hysbysfwrdd sydd wrth hen Ysgol Brithdir.

Llofnod: Dyddiad: